

## Deilliannau arolygu darparwyr addysg yng Nghymru a arolygwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2017-2018

Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn yn amlygu'r ffaith ein bod wedi diweddarau ein gwefan â chrynodebau o ddeilliannau arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2017 a 31 Awst 2018.

**Dyddiad cyhoeddi**  
19 Medi 2018

**Diweddariad nesaf**  
Bydd Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd yn rhoi arfarniad a sylwebaeth bellach ar berfformiad addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod 2017-2018.

Caiff hwn ei gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2018.

**Rhagor o wybodaeth**  
Mae deilliannau fesul darparwr, crynodebau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ôl sector a lleoliad, a chrynodeb o'r ymatebion i'n holiaduron cyn-arolygu i ddysgwyr a rhieni i'w gweld ar ein gwefan:


[data.estyn.gov.wales](http://data.estyn.gov.wales)  
[data.estyn.llyw.cymru](http://data.estyn.llyw.cymru)

Yn ystod 2017-2018, arolygom 254 o ddarparwyr yn unol â'n fframwaith arolygu cyffredin newydd a gyflwynwyd ym Medi 2017; fe wnaeth hyn gynnwys dau arolygiad peilot gan ddefnyddio'r fframwaith newydd mewn coleg addysg bellach a darparwr Cymraeg i oedolion. Mae crynodeb o brif ddeilliannau yr arolygiadau i'w gweld yn y siart isod.

Arolygom 90 o leoliadau meithrin nas cynhelir a dau goleg addysg bellach yn unol â'r fframwaith arolygu cyffredin a gyflwynwyd ym Medi 2010. Mae crynodebau o ddeilliannau arolygu'r arolygiadau hyn wedi'u cynnwys ar ein gwefan.

Hefyd, cynhaliom ddau arolygiad peilot gan ddefnyddio'n harweiniad newydd ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol. Mae'r adroddiadau arolygu unigol ar ein gwefan yn rhoi manylion canfyddiadau'r arolygiadau hyn.

### Prif ddeilliannau arolygu ar gyfer darparwyr a arolygwyd o dan y fframwaith arolygu cyffredin newydd, 2017-2018 (a)



(a) Nid yw darparwyr â nifer fach iawn o ddysgwyr yn cael barn ar gyfer safonau na lles ac agweddau at ddysgu. Yn 2017-2018, roedd hyn yn berthnasol i ddau darparwr.

## Mynediad i'n data

- Mae'r Datganiad Ystadegol Cyntaf hwn wedi ei rag-gyhoeddi a'i gyhoeddi ar wefan Estyn, a'i baratoi'n unol ag egwyddorion a phrotocolau'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).
- Mae crynodebau o'n deilliannau arolygu ac ymatebion i holiaduron i'w gweld ar ein gwefan.
- Gall defnyddwyr ddefnyddio hidlyddion i addasu'r data y maent yn ei weld a lawrlwytho'r canlyniadau. Mae'n cynnwys data ar gyfer arolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Medi 2010 a 31 Awst 2018.
- Mae pedair adran wahanol:
  - Mae 'Deilliannau yn ôl darparwr' yn dangos rhestr o'r deilliannau arolygu ar gyfer darparwyr unigol a grwpiau.
  - Mae 'Deilliannau yn ôl sector' yn crynhoi'r deilliannau arolygu ar gyfer sectorau cyfan.
  - Mae 'Deilliannau ar draws awdurdodau lleol' yn galluogi'r defnyddiwr i weld crynodebau o ddeilliannau arolygu ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.
  - Mae 'Holiadur dysgwyr a rhieni' yn cyflwyno crynodebau o'r ymatebion i'n holiaduron.
- Mae'r adroddiadau arolygu ar gyfer darparwyr unigol, sy'n cynnwys arfarniadau a sylwebaeth fanwl ar ganfyddiadau'r arolygiad, ar gael ar ein gwefan.  
[estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio](http://estyn.llyw.cymru/arolygu/chwilio)

## Sylwebaeth bellach ar ein data

- Caiff Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ei gyhoeddi bob mis Ionawr, ac mae'n rhoi arfarniad a sylwebaeth ar ddeilliannau arolygu a pherfformiad addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol.
- Caiff yr Adroddiad Blynyddol, a fydd yn arfarnu ystod lawn y canfyddiadau o'n harolygiadau ar gyfer 2017-2018, ei gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2018, a bydd ar gael ar ein gwefan:  
[estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol](http://estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol)

# Ynglŷn â deilliannau arolygu 2017-2018

- Caiff yr holl ddarparwr addysg a hyfforddiant yng Nghymru eu harolygu o leiaf unwaith mewn cyfnod o saith mlynedd, a ddechreuodd ar 1 Medi 2016.
- Mae ysgolion, colegau arbenigol annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr dysgu yn y gwaith yn cael tair wythnos o rybudd ysgrifenedig o arolygiad; mae gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn cael 10 wythnos o rybudd ac mae pob sector arall (meithrinfeydd nas cynhelir, addysg bellach, hyfforddiant ac addysg gychwynnol athrawon a Chymraeg i oedolion) yn cael 4 wythnos o rybudd.
- Caiff adroddiadau arolygu eu cyhoeddi ar ein gwefan ar ôl yr arolygiad, y rhan fwyaf ohonynt cyn pen 45 diwrnod gwaith o ddechrau'r arolygiad, ond mae hyn yn amrywio ychydig ar gyfer rhai sectorau.
- Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a gyflwynwyd o Fedi 2017 ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion annibynnol, colegau arbenigol annibynnol a darparwyr dysgu yn y gwaith wedi ei drefnu fel a ganlyn:
  1. Safonau
  2. Lles ac agweddau at ddysgu
  3. Addysgu a phrofiadau dysgu
  4. Gofal, cymorth ac arweiniad
  5. Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Rydym yn defnyddio'r raddfa bedwar pwynt i ddangos ein barnau arolygu:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
Digonol ac angen gwella	Cryfderau'n gorbwysu gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
Anfoddhaol ac angen gwelliant brys	Gwendidau pwysig yn gorbwysu cryfderau

- Mae'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a gyflwynwyd o Fedi 2010 ymlaen a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygu lleoliadau meithrin nas cynhelir a cholegau addysg bellach yn ystod 2017-2018 i'w weld ar ein gwefan: [estyn.llyw.cymru/dogfen/fframwaith-arolygu-cyffredin-o-fedi-2010](http://estyn.llyw.cymru/dogfen/fframwaith-arolygu-cyffredin-o-fedi-2010)
- Yn ystod arolygiad, rydym yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar y darparwr ai peidio. Gall y gweithgarwch hwn amrywio o nodi arfer effeithiol a gofyn iddynt ddarparu astudiaethau achos i argymhell mesurau arbennig.
- Caiff ansawdd ein holl farnau arolygu ei sicrhau gan Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant (AEM) arall. Bydd yr AEM sy'n ymgymryd â'r rôl hon yn gwirio'r barnau a luniwyd mewn adroddiad arolygu yn erbyn y dystiolaeth a gasglwyd yn yr arolygiad, er mwyn sicrhau eu bod yn cyfateb i'w gilydd, a bydd hefyd yn gwirio bod y tîm wedi dilyn ein harweiniad cyhoeddedig i arolygwyr. Caiff trefniadau sicrhau ansawdd eu sicrhau gan archwilwyr annibynnol.
- Wrth ddadansoddi data deilliannau arolygu, mae'n bwysig nodi y gall fod yn anodd cymharu tueddiadau mewn crynodebau deilliannau rhwng blynyddoedd gan fod amrywiaeth yn y sampl o ddarparwyr yr ydym yn eu harolygu.
- Am ragor o fanylion am ein proses arolygu, ewch i'n gwefan: [estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu](http://estyn.llyw.cymru/arolygu/esbonio-arolygu)

## Ynglŷn â'n holiaduron cyn-arolygu

- Caiff safbwyntiau dysgwyr, rhieni a gofalwyr eu casglu cyn i ni arolygu eu darparwr addysg.
- Rydym yn cyhoeddi crynodebau yn unig o holiaduron dysgwyr, rhieni a gofalwyr, oherwydd nifer annigonol o ymatebion i'r holiaduron eraill.
- Mae ein holiaduron wedi'u teilwra ar gyfer pob sector, ond maent yn casglu gwybodaeth am themâu tebyg.
- Caiff dysgwyr a rhieni eu hannog i lenwi'r holiaduron hyn yn electronig er effeithlonrwydd, er y gellir gofyn am gopiâu papur.
- Am ragor o fanylion am ein holiaduron, ewch i'n gwefan: [estyn.llyw.cymru/arolygu/holiaduron](http://estyn.llyw.cymru/arolygu/holiaduron)

## Cymaroldeb y data hwn

- Mae systemau addysg ac arolygu gwahanol yn ei gwneud yn anodd cymharu'r deilliannau hyn â deilliannau arolygu gwledydd eraill.
- Am ragor o wybodaeth am y systemau a'r deilliannau arolygu yng ngwledydd eraill y Deyrnas Unedig, ewch i'w gwefannau unigol:

<b>Lloegr</b>	Ofsted	<a href="http://www.gov.uk/government/organisations/ofsted">www.gov.uk/government/organisations/ofsted</a>
<b>Gogledd Iwerddon</b>	Education Training Inspectorate	<a href="http://www.etini.gov.uk/">www.etini.gov.uk/</a>
<b>Yr Alban</b>	Education Scotland	<a href="https://education.gov.scot/">https://education.gov.scot/</a>

## Perthnasedd y data hwn

- Caiff yr ystadegau hyn eu defnyddio y tu mewn a'r tu allan i Estyn i fonitro tueddiadau addysgol. Mae rhai o'r defnyddwyr allweddol yn cynnwys:
  - Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru
  - Llywodraeth Cymru
  - Y gymuned ymchwil
  - Darparwyr addysg a hyfforddiant
  - Consortia addysg rhanbarthol, awdurdodau lleol a darparwyr addysg
  - Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion
  - Dysgwyr, rhieni a gwarcheidwaid
  - Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat a'r cyfryngau